# Cofnodion cyfarfod â thema Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru a gynhaliwyd ar 6 Chwefror 2024

**Yn bresennol:**

**Aelodau Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (WFAC) a oedd yn bresennol:**

- Dr Rhian Hayward, Cadeirydd
- Dr Philip Hollington
- Christopher Brereton OBE
- Dr John Williams
- Helen Taylor
- Jessica Williams
- Dave Holland

**Swyddogion yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a oedd yn bresennol:**

- Anjali Juneja – Cyfarwyddwr Materion Rhyngwladol a'r Deyrnas Unedig
- Nathan Barnhouse – Cyfarwyddwr yr ASB yng Nghymru
- Sioned Fidler – Pennaeth Cyfathrebu, y Gymraeg a Chymorth Busnes
- Lucy Edwards – Uwch-reolwr Busnes
- Owen Lewis – Pennaeth Polisi Rheoleiddio a'r Bartneriaeth ag Awdurdodau Lleol
- Peter Quigley – Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Rheoleiddio
- Brianna Halstead-Cashman – Pennaeth Polisi Bwyd
- Chun-Han Chan – Pennaeth Arloesedd Rheoleiddiol ac Ymgysylltu
- Danielle Gazi – Pennaeth Cynhyrchion Rheoleiddiedig, Cymru
- Kerys James-Palmer – Pennaeth Strategaeth Ddeddfwriaethol

**Arsylwyr:**

Cynrychiolwyr:

- Elizabeth Lewis – Ysgrifennydd Cyffredinol Cymdeithas Gweithgynhyrchwyr Atchwanegiadau ac Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid Prydain (BAFSAM)
- Cynrychiolwyr o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cynrychiolwyr o Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cynrychiolwyr o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

# 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a chofnodion y cyfarfod diwethaf

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Georgia Taylor. Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod mis Hydref 2023.

# 2. Datgan buddiannau

2.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

# 3. Diwygio Cynhyrchion Rheoleiddiedig

3.1 Cafodd y pwyllgor gyflwyniad gan swyddogion a oedd yn egluro beth yw cynhyrchion rheoleiddiedig a sut maen nhw'n cael eu hawdurdodi. Ar ôl hyn, rhoddwyd trosolwg o'r rhaglen ar gyfer diwygio cynhyrchion rheoleiddiedig, gan gynnwys gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r hyn y mae'r diwygio'n ceisio ei gyflawni.

Ar y cyfan, roedd y pwyllgor yn cefnogi'r rhaglen ddiwygio, a'i nod o ddarparu system symlach a mwy effeithlon er mwyn dod â chynhyrchion i'r farchnad yn gynt. Roedd hefyd yn fodlon bod yr ASB yn cynnwys rhanddeiliaid yng Nghymru yn ei rhaglen ymgysylltu. Roedd y prif bwyntiau trafod yn ymwneud â'r ffaith bod hon yn broses ddiwygio hollbwysig ar gyfer y system fwyd, a bod angen bod yn ofalus rhag creu unrhyw rwystrau i arloesi o fewn y system honno. Yng Nghymru, rydym yn annog arloesi yn y diwydiant bwyd, ac mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi yn y sector bwyd ac mewn busnesau bwyd. Mae hyn yn arwain at weithgarwch, yn arbennig ar gyfer busnesau bach a chanolig a microfusnesau, ond mae bwlch mawr i'w lenwi o ran gwybodaeth a gallu yn y sectorau hyn. Nid yw llawer o fusnesau bob amser yn ymwybodol o'r rheolau ar gyfer awdurdodi ac nid oes ganddyn nhw'r sgiliau na'r wybodaeth am y broses a sut i gynhyrchu *dossier* technegol.

3.3 O ran y cynnig ynghylch cymorth cyn-ymgeisio i fusnesau, dywedodd y Pwyllgor fod hyn yn hollbwysig i sicrhau y gall arloesi barhau gan fod diffyg gwybodaeth a gallu yn achosi oedi a rhwystredigaeth. Pwysleisiodd y Pwyllgor y cyfleoedd a allai fod ar gael pe bai'r ASB yn cysylltu â chyllidwyr arloesi eraill, er enghraifft Ymchwil ac Arloesi y DU (UKRI) a all gyfeirio at reoleiddio yn ystod y cam Ymchwil a Datblygu. Dylai'r canllawiau hyn fod yn berthnasol nid yn unig i fusnesau a gweithgynhyrchwyr ond hefyd i grwpiau rhanddeiliaid a'r rheiny yn y sector cyd-weithgynhyrchu sydd weithiau'n llai ymwybodol o'r gofynion rheoleiddio ar gyfer

mathau penodol o gynnyrch. Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai modd cynhyrchu fframwaith ar gyfer pob cyfundrefn, gan nodi y gallai hyn fod yn ddefnyddiol iawn nid yn unig i'r arloeswr ond i unrhyw un sy'n cefnogi'r arloeswr. O gofio bod hwn yn ddiwygiad sylweddol, pe bai modd ei wneud yn dda, gallai helpu'r DU gyfan i symud ymlaen, ond pe na bai'n cael ei wneud yn dda, gallai atal arloesedd a chael effaith andwyol.

3.4 Roedd y Pwyllgor yn cytuno'n fras â'r egwyddor o gael gwared ar adnewyddiadau ac Offerynnau Statudol, ac roedd yn gefnogol o'r tîm a'r gwaith sy'n mynd rhagddo wrth feddwl am gamau mentrus i'w cymryd er mwyn gwneud y prosesau gweinyddol yn fwy effeithlon. Holodd y Pwyllgor a fyddai cyfnod ymgynghori byrrach gyda chynulleidfa fwy targededig yn arbed amser, a gofynnodd a oedd yn bosib i'r ymgynghoriad a'r dadansoddiad risg ddigwydd ar yr un pryd. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi'r bwriad o weithio'n rhyngwladol i elwa ar asesiadau risg sydd wedi'u cynnal mewn gwledydd eraill gan reoleiddwyr dibynadwy i arbed amser. Cytunodd y Pwyllgor mai'r peth pwysicaf yw sicrhau, wrth chwilio am fesurau arbed amser, nad yw diogelwch bwyd yn cael ei esgeuluso. Yn y pen draw, hoffai'r Pwyllgor weld proses ystwyth, effeithlon a chyfannol.

3.5 Ymunodd Elizabeth Lewis, Ysgrifennydd Cyffredinol Cymdeithas Gweithgynhyrchwyr Atchwanegiadau ac Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid Prydain (BAFSAM), â'r cyfarfod fel arsylwr, a thaflodd rywfaint o oleuni ar y modd y caiff ychwanegion bwyd anifeiliaid eu cymeradwyo yng Nghymru. Gwnaeth Elizabeth rai pwyntiau cymhellol iawn o safbwynt y diwydiant:

3.6 Mae cyfres o gamau ac amserlenni clir yn allweddol – ar hyn o bryd, nid yw'r broses yn gweithio gan nad oes dim byd yn nodi'r disgwyliadau o ran amseru nac yn dangos cynnydd. Ni all y diwydiant gynllunio na siarad â buddsoddwyr neu gwsmeriaid heb ddeall yr amserlenni'n glir.

3.7 Ar hyn o bryd, mae cwmnïau'n dweud wrth BAFSAM "nad oes pwynt" cyflwyno ceisiadau i system y DU ac mae rhai o'i haelodau'n penderfynu peidio â masnachu. Mae hi o'r farn bod yn rhaid i'r system bresennol newid os ydym am fod â system sy'n gweithio.

3.8 Mae'r diwydiant o fudd i ddefnyddwyr – er enghraifft: mae bwyd anifeiliaid mwy effeithlon a rhatach sy'n cynnig lefelau uchel o les yn golygu cynhyrchion rhatach o ansawdd uwch i ddefnyddwyr. Mae'r system bresennol yn niweidio pob elfen – y diwydiant, ffermwyr, a defnyddwyr.

3.9 Pwysleisiodd Elizabeth fod y diwydiant bwyd anifeiliaid yn llwyr groesawu diwygio gan ei fod yn bwynt hollbwysig o safbwynt y diwydiant.

## 4. Diweddariad gan y Cadeirydd

4.1 Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar ar gyfarfod y Bwrdd ym mis Rhagfyr a gynhaliwyd ym Mryste, a rhoddodd wybod i'r Pwyllgor y bydd cyfarfod y Bwrdd ym mis Mehefin 2024 yn cael ei gynnal yn Llandudno. Cyfeiriodd y Cadeirydd

hefyd at ei rôl fel Arweinydd y Bwrdd ar Gynhyrchion Rheoleiddiedig a bod y cyfarfod hwn yn amserol iawn er mwyn bwydo i drafodaethau'r Bwrdd a'r darn o waith diwygio.

## 6. Adroddiad y Cyfarwyddwr (Papur 23/02/02)

6.1 Rhoddodd y Cyfarwyddwr ddiweddariad llafar ar ei adroddiad a oedd yn cynnwys y newyddion diweddaraf am lansio ail Adroddiad Blynyddol yr ASB/FSS a gynhaliwyd yn y Senedd ac a oedd yn cyd-daro â 10fed pen-blwydd y CSHB yng Nghymru. Roedd pynciau eraill yn cynnwys BTOM, cynllunio busnes, a'r tafod glas.

## 7. Unrhyw fater arall

7.1 Nododd yr aelodau y byddai'r cyfarfod â thema nesaf yn cael ei gynnal ar 23 Ebrill.

Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.